Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

# POLISI RHYDDHAD YN ÔL DISGRESIWN Y DRETH GYNGOR

**Mawrth 2023**

| Cynnwys | | Tudalen. |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Pwerau Deddfwriaethol | 2 |
| 3. | Prif Egwyddorion | 2 |
| 4. | Cymhwystra | 3 |
| 5. | Hawlio Rhyddhad Yn Ôl Disgresiwn | 5 |
| 6. | Penderfynu ar Geisiadau | 6 |
| 7. | Hysbysiad | 6 |
| 8. | Apeliadau | 6 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi rhyddhad yn ôl disgresiwn wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet i gynorthwyo talwyr y dreth gyngor a allai fod yn dioddef caledi neu ofid ariannol, pan fo tystiolaeth glir bod gan yr unigolion hynny amgylchiadau eithriadol, ac y buont yn chwilio pob dull a modd megis eithriadau statudol a disgowntiau.

1.2 Bydd y polisi rhyddhad yn ôl disgresiwn yn cael ei weinyddu gan yr adran drethiant a bydd ar gael i unrhyw dalwr y dreth gyngor o dan yr amgylchiadau a nodir yn y polisi hwn. Diben y polisi rhyddhad yn ôl disgresiwn hwn yw rhoi cymorth dros dro i dalwyr y dreth gyngor i helpu i leihau eu rhwymedigaeth dreth gyngor (er mewn rhai dosbarthiadau/achosion trethdalwyr gall y rhyddhad fod o natur tymor hwy). Gweithredir y polisi yn ôl disgresiwn y Cyngor.

## 2. PWERAU DEDDFWRIAETHOL

2.1 O dan Adran 13A (1) (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i mewnosodwyd gan Adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012), mae gan y Cyngor y pŵer i leihau rhwymedigaeth y dreth gyngor mewn cysylltiad ag achosion unigol neu ddosbarth(iadau) o achosion y gall benderfynu arnynt a phryd yr ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny.

Nodir crynodeb o Adran 13A (1) (c) isod:

- Pan fo person â rhwymedigaeth arno i dalu’r dreth gyngor mewn cysylltiad ag unrhyw annedd y gellir codi tâl amdani, gall yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal lle mae'r annedd wedi'i lleoli ostwng y swm y mae rhwymedigaeth arno i'w dalu i'r fath raddau ag y mae'n credu sydd yn addas.
- Mae'r pŵer o dan isadran (1) yn cynnwys y pŵer i ostwng y swm i ddim.
- Gellir arfer y pŵer o dan isadran (1) mewn cysylltiad ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth achos lle mae rhwymedigaeth i'w lleihau i raddau a ddarperir gan y penderfyniad.

2.2 Rhaid ariannu cost dyfarnu Adran 13A (1) (c) Gostyngiad y Dreth Gyngor yn ôl Disgresiwn o fewn cyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan y dreth gyngor.

2.3 O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor dim ond yn ystyried defnyddio ei bwerau i leihau rhwymedigaeth dreth gyngor i unrhyw dalwr neu ddosbarth talwyr y dreth gyngor mewn amgylchiadau eithriadol. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun yn seiliedig ar y ffurflen gais a gwybodaeth ategol.

## 3. PRIF EGWYDDORION

3.1 Nod rhyddhad yn ôl disgresiwn y dreth gyngor yw cynnig cymorth ariannol i dalwyr y dreth gyngor sy'n profi amgylchiadau eithriadol. Ymdrinnir â phob cais am ryddhad yn ôl disgresiwn yn ôl ei deilyngdod ei hun yn gyfan gwbl a bydd pawb sy'n talu’r dreth gyngor yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Trwy weithredu’r polisi hwn bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni’r canlynol:

- Lleihau anghyfiawnder cymdeithasol

- Atal digartrefedd
- Cadw teuluoedd gyda'i gilydd
- Cefnogi'r rhai sy’n agored i niwed yn eu cartrefi yn y gymuned
- Helpu cwsmeriaid trwy argyfyngau personol a digwyddiadau anodd

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a byddwn yn ystyried pob ffactor neu amgylchiadau eithriadol a allai fod yn berthnasol.

3.2 Bwriedir i’r rhyddhad yn ôl disgresiwn a ddyfernir o dan y polisi hwn fod yn fesur tymor byr (er mewn rhai dosbarthiadau/achosion trethdalwyr gall y rhyddhad fod o natur tymor hwy) ac yn gyffredinol ni fwriedir iddo dalu am y diffyg rhwng y Dreth Gyngor a'r hawl i dderbyn cymorth y Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor nac unrhyw ostyngiad arall yn y tymor hir.

3.3 Mae adran 13A (1) (c) yn rhoi i'r Cyngor y disgresiwn i roi cymorth i dalwyr y dreth gyngor pan nad yw’r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu disgownt, eithriad neu ostyngiad neu pan fo’r Cyngor yn teimlo, o dan yr amgylchiadau nad yw lefel y disgownt neu'r gostyngiad yn ddigonol o ystyried yr amgylchiadau eithriadol sydd dan sylw.

3.4 Gwneir unrhyw benderfyniad heb gyfeiriad at unrhyw ystyriaethau cyllidebol, er gwaethaf y ffaith bod rhaid cydbwyso unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd yn y pen draw yn talu am ostyngiad yn incwm y dreth gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw rwymedigaeth lai yn cael ei ystyried ar y cyd ag amgylchiadau talwr y dreth gyngor.

## 4. CYMHWYSTRA

4.1 At ddibenion gweinyddu'r cynllun, bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau disgresiwn i ganiatáu gostyngiad yn y dreth gyngor o fewn unrhyw un o'r categorïau canlynol: -

a) **Caledi Ariannol Eithriadol**

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gan y Cyngor hwn Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, trwy ostyngiad, i'r rhai sydd angen cymorth i gyflawni eu rhwymedigaeth dreth gyngor. Bwriad y cynllun yw ystyried sefyllfa ariannol ac amgylchiadau penodol unigolion, gan gynnwys cyfansoddiad eu haelwyd.

Bydd ceisiadau'n dal i gael eu derbyn dan Bolisi Rhyddhad yn ôl Disgresiwn Y Dreth Gyngor ar gyfer pobl sy’n gymwys i dderbyn cymorth o dan y Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor ond sy'n parhau mewn caledi ariannol eithriadol. Yn y lle cyntaf byddai'r Cyngor yn disgwyl i drethdalwr ganfod a oes unrhyw ddisgownt, eithriad neu gymhwysedd ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o dan y Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn berthnasol cyn ystyried cais.

Rhaid i'r cais am Ostyngiad yn ôl Disgresiwn y Dreth Gyngor gael ei wneud gan y person sydd â rhwymedigaeth arno i dalu’r dreth gyngor neu ei

eiriolwr/penodai (gyda chaniatâd ysgrifenedig) yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y cais.
Fel rhan o'r broses ymgeisio o dan ran (a) o'r Polisi Gostyngiad yn ôl disgresiwn y Dreth Gyngor, mae'n rhaid i bob ymgeisydd ddarparu'r holl wybodaeth ganlynol: -

- Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais briodol ar gyfer Rhyddhad Yn Ôl Disgresiwn y Dreth Gyngor gyda'r holl adrannau perthnasol wedi'u cwblhau.
- Rhaid cynnwys manylion preswylwyr eraill yn y cais hefyd.
- Rhaid i ymgeiswyr roi manylion llawn am incwm a gwariant gyda thystiolaeth briodol i gefnogi'r wybodaeth a geir yn eu cais.
- Rhaid i'r trethdalwr gadarnhau nad oes ganddo fynediad at asedau y gellid eu troi'n arian i'w ddefnyddio i dalu rhwymedigaeth dreth gyngor.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan Ran (a) o'r polisi hwn: -

- Bydd y Cyngor a'r ymgeisydd yn archwilio dewisiadau eraill ar gyfer talu, megis trefniadau talu wedi'u gohirio a gostyngiadau mewn gwariant nad yw'n hanfodol er mwyn clirio'r rhwymedigaeth sy'n weddill.
- Amgylchiadau ariannol presennol.
- Amgylchiadau'r ymgeisydd ar yr adeg yr amlygwyd y rhwymedigaeth dreth gyngor.
- Penderfynu pa gam(au) y mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd i wella'r sefyllfa;
- Ystyried dulliau eraill o gymorth a allai fod ar gael i'r ymgeisydd, megis gwneud cais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai er mwyn talu costau rhent a manteisio i'r eithaf ar fuddion eraill y wladwriaeth pan fo hynny'n berthnasol.

b) **Sefyllfa Argyfyngus (e.e. Tân neu Lifogydd)**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan dalwyr y dreth gyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi profi argyfwng neu ddigwyddiad sydd wedi gwneud eu hanheddau yn anaddas i fyw ynddynt e.e. oherwydd tân neu lifogydd, pryd y maent yn parhau i fod â rhwymedigaeth arnynt i dalu'r dreth gyngor ac nad ydynt yn gallu troi at rywun i gael iawndal nac ychwaith droi at unrhyw eithriadau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig gan nodi'n fanwl yr union amgylchiadau ar gyfer unrhyw ostyngiad yn y rhwymedigaeth sydd ei angen a nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos drwy ymgynghori â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel y bo'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei gymhwyso pryd y maent yn parhau i fod â rhwymedigaeth dreth gyngor arnynt ac nad ydynt yn gallu troi at unrhyw eithriadau statudol neu pan nad yw'r argyfwng neu'r digwyddiad yn dod o dan unrhyw bolisi yswiriant.

c) **Amgylchiadau eraill**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan dalwyr y dreth gyngor, neu grwpiau penodol o unigolion, am ostyngiad i'w rhwymedigaeth yn seiliedig ar amgylchiadau eithriadol eraill nas crybwyllwyd yn benodol o fewn y polisi hwn ond sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y polisi, fel y nodir yn Adran 3. Ond mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais yn gwarantu gostyngiad pellach yn eu rhwymedigaeth dreth gyngor gan ystyried yr effaith ar dalwyr eraill y dreth gyngor.

Ni fydd unrhyw ostyngiad mewn rhwymedigaeth yn cael ei roi pryd gellid rhoi eithriad statudol neu ddisgownt neu pryd y byddai'n gwrthdaro ag unrhyw benderfyniad, blaenoriaeth graidd neu amcan y Cyngor.

4.2 **Newidiadau mewn amgylchiadau**

Gall y Cyngor ddiwygio unrhyw ostyngiad yn ôl disgresiwn a ddarperir o dan y polisi hwn pan fo amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno y bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau a allai effeithio ar yr hawliad o dan y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'r gostyngiad a roddwyd am y flwyddyn yn ôl gyda gofyniad i ad-dalu unrhyw swm sydd heb ei dalu i'r Cyngor. Rhaid hysbysu'r holl newidiadau mewn amgylchiadau o fewn 21 diwrnod.

4.3 **Dyfarniad a Hyd**

Bydd maint a hyd y dyfarniad yn cael ei benderfynu yn ôl disgresiwn y Cyngor a bydd yn cael ei wneud ar sail y dystiolaeth a gyflenwyd ac amgylchiadau a rhinweddau pob cais a dderbynnir.

Fel arfer bydd y dyfarniad yn cychwyn o ddyddiad y cais a bydd yn cael ei ôl-ddyddio dim ond pan all talwr y dreth gyngor ddangos bod rheswm da pam na wnaeth ymgeisio ar yr adeg berthnasol.

Bydd unrhyw ddyfarniad a wneir ar sail "untro" a bydd naill ai ar gyfer rhan o'r tâl neu'r tâl llawn. Ni fydd y dyfarniad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol, oni bai fod cais pellach yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo.

Bydd unrhyw ddyfarniadau a wneir yn cael eu credydu'n uniongyrchol i gyfrif treth gyngor yr unigolyn neu'r unigolion dan sylw, gan leihau swm y dreth gyngor sy'n daladwy.

## 5. HAWLIO RHYDDHAD YN ÔL DISGRESIWN

5.1 Gellir gwneud hawliadau yn ysgrifenedig naill ai gan yr ymgeisydd dan sylw neu gan ei eiriolwr neu ei benodai gyda'i ganiatâd ysgrifenedig, drwy lenwi'r ffurflen gais.

5.2 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn brydlon ac ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol, oni bai y gall y sawl sy'n talu'r dreth gyngor roi rheswm da pam na wnaeth ymgeisio ar yr amser perthnasol. Rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan yr holl dystiolaeth briodol. Yn dibynnu ar fanylion y cais gall y Cyngor wedyn ysgrifennu a gofyn am wybodaeth atodol y mae'n rhaid ei darparu o fewn 28 diwrnod.

5.3 Dylid gwneud ceisiadau drwy e-bost i **Taxation@bridgend.gov.uk**

## 6. PENDERFYNU AR GEISIADAU

6.1 Bydd penderfyniadau o ran hawl/dyfarniadau yn cael eu gwneud yn unol ag argymhelliad yr Adran Drethiant

6.2 Trwy bwerau dirprwyedig, bydd uwch swyddogion yn yr Adran Drethiant yn ystyried unrhyw geisiadau a dderbynnir.

6.3 Bydd penderfyniadau ar apeliadau yn erbyn penderfyniad cychwynnol yr Adran Drethiant yn cael eu gwneud gan y Swyddog Adran 151, ar y cyd ag Aelod y Cabinet, Adnoddau.

## 7. HYSBYSIAD

7.1 Pan ddaw yr holl wybodaeth briodol i law bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad o fewn 28 diwrnod neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny.

7.2 Yna bydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i'w hysbysu un ai o'r dyfarniad sydd i'w wneud neu i egluro iddo pam nad yw'n gymwys.

## 8. APELIADAU

8.1 O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, nid oes hawl apelio yn erbyn defnydd y Cyngor o bwerau disgresiwn. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn derbyn cais ysgrifenedig ymgeisydd am adolygiad pellach o'i benderfyniad cyn belled â bod hwn yn cael ei dderbyn o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol pryd y bydd cyfle ar gael i ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n briodol.

8.2 Os yw'r penderfyniad yn cael ei herio gan yr ymgeisydd bydd y cais wedyn yn cael ei ystyried ymhellach gan y Swyddog Adran 151, ar y cyd ag Aelod o'r Cabinet, Adnoddau, a rhoir ateb o fewn 2 fis yn hysbysu'r ymgeisydd dan sylw ynghylch y penderfyniad.

8.3 Os nad yw'r penderfyniad cychwynnol yn cael ei wrthdroi bydd ffurflen apêl yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr penderfyniad sy'n galluogi'r ymgeisydd i wneud apêl arall i Dribiwnlys Prisio Cymru sy'n annibynnol ar y Cyngor. Os bydd yr ymgeisydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r apêl, yna rhaid llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Tribiwnlys Prisio o fewn 2 fis ar ôl cael y llythyr penderfyniad terfynol.